**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 7 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr, Cyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Enwebodd y Cynghorydd Christine Jones y Cynghorydd Ian Dunbar ac fe eiliwyd y cynnig yn briodol.

Enwebodd y Cynghorydd Mike Peers y Cynghorydd Owen Thomas ac fe eiliwyd y cynnig yn briodol.

Pan gynhaliwyd pleidlais, CYMERADWYWYD enwebiad y Cynghorydd Ian Dunbar.

Diolchodd y Cynghorydd Dunbar y Pwyllgor am eu henwebiad.

**PENDERFYNWYD**

Penodi'r Cynghorydd Ian Dunbar fel Is-gadeirydd y Pwyllgor

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd David Wisinger gysylltiad personol sy'n rhagfarnu, gan ei fod yn un o lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers, ag eitem rhif 7.2 ar y rhaglen – Cais Llawn – Dymchwel yn rhannol, er mwyn hwyluso gwaith ad-drefnu mewnol ac adeiladu estyniad newydd i adeilad presennol yr ysgol a newidiadau allanol gyda newidiadau cysylltiedig allanol i'r tir /maes parcio, a darparu ystafelloedd dosbarth a mannau storio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, Golftyn Lane, Cei Connah (056851).

Datganodd y Cynghorydd Christine Jones hefyd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu â'r eitem uchod am ei bod hithau'n un o lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers ac am fod aelodau ei theulu'n mynychu Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Datganodd y Cynghorydd Ian Dunbar hefyd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem rhif 7.2 ar y rhaglen, gan ei fod ef yn un o lywodraethwyr Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Datganodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke ei bod eisoes wedi gwneud ei phenderfyniad o ran y cais ac ar ôl cael cyngor cyfreithiol, byddai'n siarad fel Aelod lleol dim ond cyn i'r eitem gael ei thrafod ac yna byddai'n gadael yr ystafell ar ôl siarad – eitem rhif 7.5 ar y rhaglen – Cais Llawn – Codi Siop Fferm a gwaith cysylltiedig, ffurfio mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr yn Fferm Coppy, Cilcain Road, Gwernaffield (056664).

## 3. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Hysbysodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) yr Aelodau y penderfynwyd yn y cyfarfod Arweinwyr Grŵp ym mis Mehefin na fydd cofnodion llawn y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu cynhyrchu mwyach. Bydd deunydd y gweddarllediad ar gael am gyfnod amhenodol, a dim ond cofnod o'r penderfyniad a wnaed fydd yn cael ei gynhyrchu. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu ymhen chwe mis.

## 5. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) na argymhellodd y swyddogion i unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio.

## 6. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'u dangosir ar y rhestr Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

7. **PENDERFYNIADAU APELIADAU**

**APÊL GAN MR E DAVIES YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL I GODI ANNEDD AR DIR YN PAPERMILL LANE AC OLD PAPER MILL LANE, OAKENHOLT – GWRTHODWYD (055447)**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN BROOMCO (3857) LIMITED YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER MANYLION DIWYGIEDIG ANNEDD I LAIN 3 YN IARD BRYN LLWYD, STRYD Y GOGLEDD, CAERWYS – CANIATAWYD (055725)**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i ganiatáu'r apêl hon.

8. **AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

On commencement of the meeting there were 15 members of the public in attendance.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.52 pm)

..................................................
**Cadeirydd**

**PWYLLGOR RHEOLI CYNLLUNIO AR 7 MEHEFIN 2017**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056524 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Adeiladu 14 o dai 3 ystafell wely ar wahân a gwneud gwaith cysylltiedig i'r Gorllewin o 19 a 20 Manor Drive, Bwcle. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr oedd wedi'u rhannu ymlaen llaw.<br><br>Siaradodd Mr P Moren, ar ran yr Ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i anfon llythyr i Edward Homes i'w hysbysu am y broblem lygod mawr gyfredol a'r hysbysiad sy'n bodoli. | Rhoi caniatâd amodol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn gwneud cytundeb Adran 106, gan ddarparu ymgymeriad unochrog neu wneud rhagdaliad sy'n darparu ar gyfer cyfarpar chwarae. |
| 056851 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais llawn - Dymchwel yn rhannol, er mwyn hwyluso gwaith ad-drefnu mewnol ac adeiladu estyniad newydd i adeilad presennol yr ysgol, a newidiadau allanol gyda newidiadau cysylltiedig allanol i'r tir/maes parcio, a darparu ystafelloedd dosbarth a mannau storio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu yn Ysgol Uwchradd Cei | Wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn gynharach â chais rhif 056851, gadawodd y Cynghorwyr David Wisinger, Ian Dunbar a Christine Jones y cyfarfod cyn i'r mater gael ei drafod.<br><br>Cymerodd y Cynghorydd Chris Bithell y Gadair ar gyfer eitem rhif 056851 ar ei hyd, ar ôl cael | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Connah, Golftyn Lane, Cei Connah. | ei benodi gan y Pwyllgor.<br><br>Ar ôl pleidleisio ar y mater, dychwelodd y Cynghorwyr David Wisinger, Ian Dunbar a Christine Jones i'r cyfarfod a hysbyswyd hwy am y penderfyniad.<br><br>Cymerodd y Cynghorydd David Wisinger y Gadair am weddill y cyfarfod. | |
| 055871 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais Llawn – Gwelliannau ac estyniad i drac fferm, cynllun y llawr caled ar gyfer parcio a symud cerbydau, gwella'r cyfleusterau toiled, golchi ac ymolchi, darparu cysylltiadau i ddarpar ymwelwyr (gan gynnwys man gwaredu dŵr llwyd) a gwaith tirlunio, oll i gefnogi cyflwyno safle Ardystiedig arfaethedig i'r Clwb Gwersylla a Charafanio (yn ôl-weithredol) yn Fferm Ynys Hir, Ffordd Picton, Picton. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr oedd wedi'u rhannu ymlaen llaw.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Lleol Glyn Banks am y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Lleol cyfagos,Andrew Holgate hefyd am y cais.<br><br>Angen drafftio rheswm dros wrthod. Dylai'r rheswm dros wrthod ganolbwyntio ar Bolisi RE5, (b) byddai'r cynnig yn | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn erbyn yr argymhelliad. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | cael effaith sylweddol ar ardaloedd o werth tirweddol. | |
| 056757 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Cais Llawn – gosod monopol 17.5m i gynnal 2 antena o fewn amdo, 2 gabinet offer a datblygiad ategol ar Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr oedd wedi'u rhannu ymlaen llaw.<br><br>Siaradodd Mrs T Norton yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr J Hafiz, ar ran yr Ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd V Hinstridge, Cyngor Cymuned Gwernymynydd a Cadole, yn erbyn y cais.<br><br>Angen drafftio rheswm dros wrthod. Dylai'r rheswm dros wrthod ganolbwyntio ar Bolisi A22, gan dynnu ar yr iaith yn y cyfiawnhad rhesymedig ym mharagraff 10.79 mewn perthynas â'r effaith weledol niweidiol. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn erbyn yr argymhelliad. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| 056664 | Cyngor Cymuned Gwernaffield a Phantymwyn | Cais Llawn – Adeiladu siop fferm a gwaith cysylltiol, ffurfio mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr yn Fferm Coppy, Ffordd Cilcain, Gwernaffield. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr oedd yn ymwneud â'r cais, oedd wedi'u rhannu ymlaen llaw.<br><br>Siaradodd Mr Richard Lloyd yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Ms K James, oedd yn siarad ar ran yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd G Tattum, Cyngor Cymuned Gwernaffield, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke am 5 munud yn erbyn y cais ac yna gadawodd yr ystafell ar ôl gorffen.<br><br>Ar ôl pleidleisio ar y mater, dychwelodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke i'r cyfarfod ac fe'i hysbyswyd am y penderfyniad. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar amod ychwanegol sy'n nodi bod rhaid cael gwared â'r ffordd os bydd defnydd o'r siop fferm yn dod i ben. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056700 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn - Codi estyniad deulawr, garej cysylltiedig a phortsh yn 21 Springfield Drive, Bwcle. | Yn dilyn cytundeb gan y Pwyllgor, daethpwyd ag eitem rhif 7.8 ar y rhaglen ymlaen.<br><br>Siaradodd Ms C Creaney, yr Ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn unol a'r argymhelliad, a<br><br>• nodyn ynglŷn â gosod ymyl palmant isel estynedig |
| 055736 | Cyngor Cymuned Brychdyn | Cais llawn - Codi 2 uned Dosbarth A3 gyda gwelliannau cysylltiedig i dir y cyhoedd ac ad-drefnu maes parcio ym Mharc Siopa Brychdyn, Brychdyn. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad. |
| 055774 | Cyngor Cymuned Northop Hall | Cais llawn - Datblygiad arfaethedig o 27 annedd (Cam 3) yn Cae Eithin, Ffordd y Pentre, Northop Hall. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr oedd wedi'u rhannu ymlaen llaw. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar wneud cytundeb Adran 106 gan ddarparu ymgymeriad unochrog neu wneud rhagdaliad am y cyfraniadau a restrir yn yr adroddiad. |
| 056557 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais llawn - Codi estyniad i Unedau 1 a 2 yn<br>Nant y Gain, Pentre, Cilcain. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad. |